# Cenedlaetholdeb Gristnogol: Cyllell dau finiog? Gwersi o’r traddodiad Cymreig a her wahanol y ffenomenon heddiw

*Parch. Ddr. Rhys Llwyd, Chwefror 2026*

*Gair am yr awdur:*
Mae Rhys Llwyd yn Weinidog gyda Undeb Bedyddwyr Cymru yn ardal Caernarfon a Dyffryn Nantlle. Mae ganddo radd mewn Gwleidyddiaeth Cymru ac Athroniaeth Wleidyddol a Doethuriaeth ym maes Diwinyddiaeth Gyhoeddus. Cyhoeddwyd addasiad o’i draethawd ymchwil yn 2019, *Tynged Cenedl: Cenedlaetholdeb Gristnogol R. Tudur Jones*.

# Cyflwyniad

Ar brynhawn o haul cynnes, braf ar Faes Eisteddfod Abertawe yn 2006 — bron i ugain mlynedd yn ôl bellach — ymlwybrais draw i Babell Prifysgol Bangor. Roeddwn wedi derbyn gwahoddiad i dderbyniad, lle y byddwn i, ynghyd â nifer o ddarpar fyfyrwyr ymchwil eraill, yn cael ein llongyfarch ar ennill ysgoloriaethau. Fel oedd yn nodweddiadol o’r math hwnnw o ddigwyddiad ar y pryd, roedd y gwin coch yn llifo’n rhwydd. Nid oes angen enwi’r cwmni, ond digon yw dweud ei fod yn un adnabyddus am ei gyfraniad i’r genedl — ac yn gwmnïwr da.

Pwnc yr ymchwil yr oeddwn ar fin ei chychwyn oedd *“Cenedlaetholdeb Gristnogol R. Tudur Jones”*. Wedi clywed hyn, trodd un o’r cwmni ataf a holi, mewn cywair braidd yn nawddoglyd: “Rhys, pam ar wyneb daear wyt ti wedi dewis astudio pwnc mor amherthnasol yn yr unfed ganrif ar hugain?” Nid dyna’r math o ymateb roedd cyw fyfyriwr ymchwil yn ei ddisgwyl gan un o uwch swyddogion y Brifysgol, rhaid cyfaddef.

Ac eto, bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, dyma ni — ar drothwy etholiad yn 2026 — ac un o’r pynciau trafod, un o’r ideolegau allai chwarae rhan nid ansylweddol yn y drafodaeth gyhoeddus, yw’r hen bwnc “amherthnasol” hwn: *Cenedlaetholdeb Gristnogol*.

O safbwynt Cristnogol a diwinyddol, mae’n parhau’n bwnc dybryd o berthnasol — ond, yn anffodus, am yr holl resymau anghywir. Oherwydd nid *Cenedlaetholdeb Gristnogol* Lewis Valentine, Gwynfor Evans na Dr Tudur Jones sydd wedi dychwelyd i’r sgwrs gyhoeddus, ond yn hytrach ffenomenon tra gwahanol: *Christian Nationalism*. Ideoleg sy’n defnyddio llawer o’r un iaith a’r un rhethreg, ond sy’n tarddu o le hollol wahanol.

Mae hon yn ffenomenon a fu’n mud-ferwi yn yr Unol Daleithiau ers twf y *religious right* yn yr 1980au, ond a gyrhaeddodd ei phenllanw dychrynllyd ym mhriodas anghymharus rhai elfennau o’r traddodiad efengylaidd â Donald J. Trump a’r dde eithafol. Ac erbyn hyn, mae’n ffenomenon

y gellir ei gweld yn ennill tir yma yng Nghymru hefyd — drwy ddylanwad ffigurau fel Tommy Robinson, ac hefyd arweinwyr Cristnogol Cymreig fel Faith Jarvis sydd wedi rhoi llwyfan ar y cyfryngau cymdeithasol i leisiau o'r dde eithafol er bod ei gweinidogaeth yn cael ei noddi gan ei Eglwys yng Nghastell Nedd.[1]

Yn y papur hwn — sy'n fwriadol yn fwy o ymateb bugeiliol nag o bapur academaidd — rwy'n gobeithio rhannu rhywfaint o'm pererindod bersonol mewn perthynas â'r pwnc; amlinellu rhai o egwyddorion allweddol y traddodiad Cymreig o *Genedlaetholdeb Cristnogol*; dangos yn glir sut y mae'r *Christian Nationalism* sydd wedi dod i'n sylw yn ddiweddar yn ffenomenon tra gwahanol; ac, yn olaf, tynnu rhai casgliadau ar gyfer ein cyd-destun presennol.

# Cynnyrch y Gymru anghydffurfiol

Ces fy magu ar aelwyd Gristnogol a oedd hefyd, yn gwbl naturiol, yn aelwyd genedlaetholgar. Roedd mynd i'r capel ar y Sul a chodi posteri Plaid Cymru yn ddwy ddefod oedd yn rhan annatod o rythm bywyd teuluol, ac nad oedd gennyf reswm i'w cwestiynu fel plentyn. Mae gennyf lond trol o atgofion cynnes o'm plentyndod: cymryd rhan yng ngweithgareddau'r capel, a mynd o amgylch y pentref gyda fy nhad adeg etholiad, yn dosbarthu taflenni'r Blaid. I ni fel teulu, roedd ein Cristnogaeth a'n Cymreictod yn ddau beth oedd yn eistedd yn gwbl naturiol, a chysurus, gyda'i gilydd.

Ond maes o law — a minnau bellach yn fy arddegau ac yn dechrau cwestiynu bron popeth — deuthum ar draws ffenomenon newydd a'm drysodd fi'n lân: Cymry Cymraeg oedd yn dewis addoli mewn eglwysi Saesneg! Yn raddol, dechreuais glywed rhai Cristnogion yn egluro'r dewis hwnnw drwy ddweud bod *"yr efengyl yn bwysicach na'r iaith"*. Roedd hynny'n swnio'n dduwiol, ond roedd rhywbeth ynddo yn fy nharo'n anghyfforddus.

Erbyn diwedd fy nghyfnod yn yr ysgol uwchradd, roedd y posteri Plaid Cymru wedi troi'n blacardiau Cymdeithas yr Iaith. Ac er fy mod yn parhau i fynd yn ffyddlon ac yn llawen i'r capel bob dydd Sul, roeddwn erbyn hynny yn barod — ac yn barod iawn — i gwestiynu'r credoau roeddwn wedi eu derbyn yn ddi-gwestiwn hyd y pwynt hwnnw. Er i'm rhieni fy annog i ymgodymu â chwestiynau mawr ffydd ac i fwrw fy hun i frwydr yr iaith, nid oedd y cyfuniad hwnnw'n plesio pawb. Nid oedd fy ngwrthryfel yn un cyfforddus i bob Cristion y deuthum ar eu traws.

Daeth yr argyfwng yn fwy dwys ar ôl cyrraedd y Brifysgol. Weithiau, byddai cyfarfod yr Undeb Cristnogol yn digwydd ar yr un pryd â chyfarfod cell Cymdeithas yr Iaith. Felly, daeth y tensiwn oedd eisoes yn byw ynof yn un diriaethol: roedd rhaid dewis un cyfarfod, ac esgeuluso'r llall. Dywedwyd wrthyf — weithiau'n garedig, weithiau'n angharedig — fod yn rhaid i mi ddewis pwy oeddwn mewn gwirionedd. A oeddwn i'n perthyn i griw Duw, neu oeddwn i'n *nashi*?

[1] https://nation.cymru/news/concerns-over-evangelist-youtubers-promotion-of-the-far-right/

Tua'r cyfnod hwnnw y cyfarfûm ag Arfon Jones am y tro cyntaf. Wedi dod i ddeall yn fuan wedyn ei fod ef wedi bod yn weithgar iawn gyda Chymdeithas yr Iaith ar un adeg, ac ar yr un pryd yn angerddol dros waith yr efengyl yng Nghymru, mentrais anfon e-bost ato, gan rannu rhywfaint o'r gwewyr oedd yn fy nghalon. Soniais wrtho am fy rhwystredigaeth: fod llawer o'm cyd-Gristnogion efengylaidd yn methu deall fy nghonsyrn dros yr iaith, a bod llawer o'm cyd-ymgyrchwyr iaith heb unrhyw ddiddordeb o gwbl yn fy ffydd. Beth, felly, oeddwn i i'w wneud ar yr ynys unig hon?

Cofiaf yn iawn frawddeg gyntaf ateb Arfon: *"Wyt ti'n gyfarwydd â gwaith Dr Tudur?"* A newidiodd hynny bopeth. Trwy waith Dr Tudur y daeth hi'n glir pam y'm magwyd ar aelwyd a oedd yn gweld ffydd a chenedlaetholdeb nid fel gwrthddywediad, ond fel dau beth cwbl naturiol oedd yn gallu perthyn yn ddwfn i'w gilydd.

Ond mewn gwirionedd nid dim ond fy stori i oedd hon, roedd y berthynas agos yma rhwng y ffydd Gristnogol, yn arbennig yn ei gwedd anghydffurfiol, a datblygiadau cenedlaetholdeb Gristnogol yn rhan o'n stori gyffredin ni fel Cymru, boed i ni fod yn gredinwyr a'i peidio.

Yn ei lyfr dylanwadol *Dominion*, mae'r hanesydd Tom Holland yn dadlau bod meddylfryd moesol y Gorllewin modern wedi ei siapio'n ddwfn gan Gristnogaeth, hyd yn oed lle nad yw pobl yn ymwybodol o hynny nac yn ystyried eu hunain yn Gristnogion.

Mae syniadau megis urddas yr unigolyn, gwarchod y gwan dros y cryf, amheuaeth o dotalitariaeth, a'r gred bod hanes i symud tuag at rywbeth gwell, i gyd yn tarddu o'r chwyldro Cristnogol oedd yn gosod Duw croeshoeliedig — yn ddioddefwr, nid yn orchfygwr — yng nghanol y stori. Yn ôl Tom Holland treiddiodd y gwerthoedd moesol yma'n raddol i ymwybyddiaeth y Gorllewin nes eu bod yna'n anweledig a bron yn ddi-gwestiwn, fel yr awyr yr ydym yn anadlu.

O ganlyniad, mae hyd yn oed mudiadau seciwlar yn parhau i weithredu o fewn fframwaith moesol Cristnogol — ac yn baradocsaidd, mae'r Gorllewin yn parhau i feddwl gyda "bydolwg Cristnogol" hyd yn oed wrth gredu ei fod wedi gadael Cristnogaeth ar ôl gan fod y syniad o'r seciwlar yn dod o ddiwinyddiaeth Gristnogol sy'n dymuno gwahanu eglwys a gwladwriaeth.

Yn yr un modd, gellir dadlau bod traddodiad Plaid Cymru heddiw — ddegawdau wedi i anghydffurfwyr blaenllaw fel Gwynfor Evans a Dr Tudur Jones gamu o'r llwyfan — yn parhau, yn ei hanfod, i fod yn gynnyrch y Gymru anghydffurfiol. Yn wir, pe bai Rhun ap Iorwerth yn llwyddo yn ei ymdrech i ddod yn Brif Weinidog nesaf Cymru, gellid dehongli hynny fel penllanw prosiect gwleidyddol anghydffurfiaeth Gymreig; penllanw fydd wedi dod, efallai, ddeugain mlynedd yn rhy hwyr i lawer ei weld felly.

Mewn geiriau eraill, hyd yn oed yn y Gymru gyfoes, seciwlar hon, ni ellir anwybyddu dylanwad parhaus crefydd, ffydd a diwinyddiaeth ar ein dychymyg gwleidyddol. A phan fydd y dylanwad hwnnw'n cael ei esgeuluso neu ei wadu, caiff bwlch ei greu — bwlch y gall lleisiau mwy adweithiol ei lenwi, gan ddwyn a cam-ddefnyddio iaith ein ffydd a'i throi at ddibenion cul a pheryglus.

# Cenedlaetholdeb Gristnogol

Cyn mynd ymhellach, mae'n bwysig gwneud un peth yn gwbl glir: ni ellir cymeradwyo cenedlaetholdeb yn anfeirniadol o safbwynt Cristnogol. Yn dibynnu ar ei natur, gall cenedlaetholdeb gael ei wrthwynebu neu ei groesawu'n ofalus. Ideoleg wag yw cenedlaetholdeb — hynny yw, nid yw'n ideoleg sy'n gallu sefyll ar ei thraed ei hun. Er mwyn bod yn ystyrlon, mae'n rhaid i genedlaetholdeb fabwysiadu ideolegau eraill.

Felly, o safbwynt Cristnogol, mae'n amhosibl gwrthwynebu neu groesawu cenedlaetholdeb heb ofyn yn gyntaf pa fath o genedlaetholdeb sydd dan sylw.

Mae'n amlwg i bawb y gall cenedlaetholdeb droi'n eilun, yn enwedig pan fo'n cael ei gysylltu ag ideolegau eraill megis ffasgiaeth a hiliaeth. Gwelwyd penllanw'r math hwn o genedlaetholdeb yn yr Almaen Natsïaidd, ond hefyd yn agweddau'r Ymerodraeth Brydeinig a gwledydd Gorllewinol eraill dramor. Yn fwy diweddar, gwelir hyn yn y "Christian Nationalism" cyfoes.

Fodd bynnag, mae'n bwysig i ni fel Cymry gofio y gall hyd yn oed ein cenedlaetholdeb diniwed ninnau droi'n eilun. Os rhywbeth, mae'n haws i'n cenedlaetholdeb ni wneud hynny, gan y bydd yn digwydd mewn ffordd fwy cynnil oherwydd natur heddychlon ein cenedlaetholdeb. Mae cenedlaetholdeb yr unben a'r fyddin yn haws ei adnabod fel eilun na chenedlaetholdeb cerddi a chanu pedwar llais. Efallai fod cenedlaetholdeb eilunaddolgar ychydig fel anadl ddrwg — rwyt ti'n ei arogli ar eraill, ond yn methu ei arogli arnat ti dy hun.

Ac felly un o gyfraniadau mwyaf y traddodiad anghydffurfiol Cymreig oedd ein helpu i weld bod cenedlaetholdeb Cristnogol iach yn bosibl — math o genedlaetholdeb sy'n hyrwyddo ac yn dathlu diwylliannau lleiafrifol, a chenedlaetholdeb sy'n bodoli fel gwas i wireddu rhaglen wleidyddol fydd yn hwyluso cyfiawnder cymdeithasol. Nid yn unig y gall Cristnogion oddef y math o genedlaetholdeb a ddatblygodd yng Nghymru; ond yn hanesyddol mae llawer o Gristnogion Cymru wedi ei groesawu fel modd i warchod a meithrin y math o ddynoliaeth a fwriadodd Duw o'r cychwyn cyntaf: harddwch dynoliaeth sy'n mynegi undod mewn amrywiaeth.

## Cenedlaetholdeb gyda agenda

I'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn dilyn datblygiadau'r mudiad cenedlaethol yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, byddwch yn ymwybodol fod rhywfaint o drafodaeth wedi bod ynghylch penderfyniad mudiad YesCymru i aros yn niwtral ar ystod o gwestiynau gwleidyddol penodol. Maent o blaid annibyniaeth, ond y tu hwnt i hynny maent yn fwriadol amwys er mwyn ceisio apelio at gynulleidfa mor eang â phosibl. O ganlyniad, maent wedi cael eu beirniadu am beidio â bod yn ddigon clir ynghylch pa fath o Gymru y byddent yn dymuno i Gymru annibynnol fod.

Wrth ddilyn y datblygiadau hyn dros y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi cael fy hun yn pendroni: beth fyddai gan R. Tudur Jones i'w ddweud am hyn oll? Yn benodol, beth fyddai ganddo i'w

ddweud am y perygl o gefnogi cenedlaetholdeb neu fudiad yn anfeirniadol? A tybed a fyddai ef yn galw ar YesCymru i fod yn fwy eglur ynghylch sail ideolegol ac athronyddol eu credoau gwleidyddol?

Trwy beidio â bod yn glir ynghylch beth yw diben annibyniaeth, a beth yw sail ideolegol cenedlaetholdeb, mae perygl i'r "achos" droi'n ddiben ynddo'i hun — neu'n eilun, os mynner. Yn yr un modd ag y cynigiodd R. Tudur Jones asesiad a beirniadaeth o sail athronyddol Adfer yn y 1970au, credaf fod lle i Gristnogion heddiw graffu'n feirniadol ar y mudiad cenedlaethol Cymreig. Nid er mwyn eu tanseilio — i'r gwrthwyneb yn wir — gan ein bod mewn termau cyffredinol yn ei gefnogi ac yn dymuno llwyddiant iddi, ond er mwyn i'r llwyddiant hwnnw fod wedi'i wreiddio mewn ideoleg gadarn, fel ffordd o greu Cymru decach sy'n adlewyrchu gwerthoedd Teyrnas Dduw yn well na'r sefyllfa bresennol.

Yn sicr, rhaid i Gristnogion a'r eglwysi yng Nghymru sydd, yn hanesyddol, wedi bod yn gefnogol i genedlaetholdeb Gymreig, ymatal rhag troi'n apolegwyr i Blaid Cymru — yn enwedig pe bai'r blaid honno'n dod i rym fel rhan o lywodraeth. Yn wir, byddai hynny'n her newydd a dybryd i lawer o Gristnogion ac eglwysi yng Nghymru: sut, yn y cyd-destun hwnnw, y gellir dal llywodraeth yn atebol heb i'r Cristnogion ymgyrchodd amdani golli eu hannibyniaeth foesol a diwinyddol?

Oherwydd os metha'r Eglwys â chyflawni ei rôl broffwydol — sef llefaru gwirionedd wrth rym, hyd yn oed pan fo'r grym hwnnw'n gyfeillgar — yna bydd perygl iddi lithro'n was i brosiect gwleidyddol. A dyna, fe dybiaf, yn union sydd wedi digwydd yn achos y ffenomenon gyfoes a elwir yn *"Christian Nationalism"*: pan fo'r ffydd yn colli ei gallu i feirniadu, ac yn troi'n offeryn i gyfiawnhau grym yn hytrach nag i'w herio.

## Her "Christian Nationalism" heddiw

Gan droi, felly, at y ffenomenon cyfoes a elwir yn *"Christian Nationalism"*, mae'n bwysig imi wneud un peth yn glir o'r cychwyn, nid wyf wedi ymgymryd ag astudiaeth academaidd o'r pwnc hwn. Fodd bynnag, i'r sawl sy'n dymuno darllen dadansoddiad safonol a manwl, gallaf argymell yn gryf waith Helen Paynter a Maria Power, *The Church, The Far Right, and the Claim to Christianity*.

Bydd y sylwadau a gynigiaf felly yn codi, nid cymaint o ymchwil fanwl, ond o brofiad bugeiliol — o wrando, arsylwi, a cherdded ochr yn ochr â phobl yng Nghymru heddiw. Yn hynny o beth, fy mwriad yw ceisio enwi'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, a myfyrio arno yng ngoleuni'n ffydd.

Rydym yn byw mewn oes lle mae honiadau o *wirioneddau amgen* yn ein llethu, yn enwedig ar-lein. Rydym bellach yn or-gyfarwydd â *conspiracy theories*, poblyddiaeth sy'n chwarae'n fwriadol ar ofn pobl, *echo chambers* lle mae pobl ond yn clywed y lleisiau y maent eisoes yn

cytuno â hwy, a chyd-destun lle mae'r hyn a elwir yn *ffeithiau amgen* yn cael eu credu ar sail teimlad yn hytrach nag ar sail realiti.

Mae tueddiadau o'r fath wedi bodoli erioed ar ymylon cymdeithas. Ond erbyn hyn, maent wedi symud i ganol bywyd cyhoeddus, wrth i wleidyddion sy'n arddel y byd-olwg hwn ennill poblogrwydd. Mae'n ffenomenon sy'n effeithio ar bobl o bob cefndir, pob dosbarth cymdeithasol, a phob tueddfryd gwleidyddol. Mae'r un mor hawdd i rywun o genhedlaeth y *baby boomers*, o gefndir economaidd cyfforddus, gael ei radicaleiddio ag ydyw i berson ifanc di-waith.

Mae hefyd wedi dod yn gymdeithasol dderbyniol i wadu consensws gwyddonol ar gynhesu byd-eang, neu i ledaenu honiadau am bobl o gefndiroedd ethnig eraill mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosibl — nac yn dderbyniol — ddegawd yn ôl. Mae hyn i'w weld ar draws y byd Gorllewinol: yn yr Unol Daleithiau, dan ddylanwad mudiad MAGA; ac yma yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, dan ddylanwad pleidiau a mudiadau poblyddol newydd.

A'r hyn sy'n peri pryder arbennig i mi fel Cristion yw hyn: bod rhai ar yr adain dde eithafol yn defnyddio iaith, delweddau a rhethreg Gristnogol i hyrwyddo eu naratif — hyd yn oed yn honni mai nhw, nid yr eglwys, sy'n sefyll dros "wir Gristnogaeth". Pan fo arweinwyr eglwysig yn llefaru yn erbyn hyn, cânt eu beirniadu am fod yn "woke", a dywedir wrthynt i lynu at faterion "ysbrydol". Ond, fel yr oedd R. Tudur Jones yn ein hatgoffa'n gyson, mater i'r eglwys — nid i wleidyddion — yw diffinio rhychwant cenhadaeth yr eglwys.

## Caethiwed Epistemolegol

Beth, felly, sy'n digwydd o'n blaenau? Efallai mai'r hyn yr ydym yn ei weld yw'r hyn y byddwn yn ei alw yn *gaethiwed epistemolegol*. Hynny yw, sefyllfa lle mae'r ffyrdd yr ydym yn gwybod beth yr ydym yn ei wybod — y rheolau, y confensiynau a'r fframweithiau sy'n llywodraethu gwybodaeth — wedi cael eu cipio gan rymoedd pwerus. Boed hynny drwy algorithmau'r cyfryngau cymdeithasol, drwy ideolegau gwleidyddol, neu drwy fudiadau sy'n gweithredu'n fwriadol ar sail ofn.

Yr hyn sy'n gwneud caethiwed epistemolegol mor beryglus yw nid yn unig ei fod yn arwain pobl i gredu pethau anghywir, ond ei fod yn llygru'r fframwaith ei hun ar gyfer dirnad gwirionedd. Mae'r gallu i farnu, i gwestiynu, ac i bwyso a mesur wedi'i blygu allan o'i siâp. Felly, fel Cristnogion, nid yn unig ein bod mewn brwydr dros wirioneddau penodol; rydym hefyd mewn brwydr ddyfnach i adfer ffydd pobl yn y syniad bod gwirionedd gwrthrychol o gwbl yn bodoli.

Er mwyn dechrau deall pam fod cymaint o bobl — Cristnogion yn eu plith — yn syrthio heddiw i gaethiwed epistemolegol, credaf fod angen cydnabod ein bod yn byw drwy gyfnod arwyddocaol o drawsnewid yn y Gorllewin. I lawer, mae cymdeithas wedi newid yn gynt nag y gallai hunaniaeth bersonol addasu. I rai Cristnogion, mae machlud *Christendom* a'r symudiad sydyn i gymdeithas seciwlar, ac ar yr un pryd aml-ffydd, wedi bod yn sioc ddofn. Mae hyn wedi arwain

rhai i deimlo eu bod yn cael eu herlid, pan mewn gwirionedd yr hyn sy'n digwydd yw colli statws a breintiau a gymerwyd yn ganiataol ers cenedlaethau.

Yn goron ar hyn oll, ceir argyfwng economaidd parhaus ers o leiaf 2008, fe chwalwyd yr addewid fod addysg a gwaith caled yn arwain yn ddi-ffael at sicrwydd a safon byw well. Mae'r cyfuniad hwn o ansicrwydd diwylliannol, ysbrydol ac economaidd yn creu argyfwng hunaniaeth dwfn. A phan fo hunaniaeth dan warchae, mae'r gallu i ddirnad gwirionedd yn pylu. Pan fo ofn yn teyrnasu, mae gwirionedd yn cilio — gan adael tir ffrwythlon i ideolegau sy'n groes i werthoedd Teyrnas Crist dyfu a blodeuo.

Yn y goleuni hwn, gellir deall *"Christian Nationalism"* fel symptom o wacter ystyr: ymgais i lenwi'r bwlch lle mae hunaniaeth, sicrwydd a gobaith wedi cilio.

Ac felly, o safbwynt bugeiliol a Christnogol, credaf fod yn rhaid i ni fod yn ddiysgog ein beirniadaeth o'r arweinwyr gwleidyddol sy'n manteisio ar hyn at ddibenion pŵer, ond ar yr un pryd yn dosturiol ac yn amyneddgar yn ein hagwedd tuag at unigolion cyffredin — rhai ohonynt, o bosibl, yn aelodau o'n heglwysi ein hunain — sydd wedi cael eu tynnu i mewn gan y rhethreg honno, nid allan o ddrygioni, ond allan o ofn a dryswch.

# Casgliad

Felly, beth yw'r alwad ar Gristnogion yng Nghymru yn y flwyddyn etholiadol hon? Yn sicr, nid i encilio o'r sgwrs gyhoeddus, nac i ildio ein dychymyg gwleidyddol i leisiau sy'n gweiddi'n uwch ac yn galetach, ond i aros yn ffyddlon i'r Efengyl sy'n ein galw i garu'r gwirionedd, gwrthsefyll ofn, a cherdded yn ostyngedig gyda'n Duw.

Mae'r traddodiad Cymreig o Genedlaetholdeb Cristnogol, ar ei orau, yn ein hatgoffa nad yw'r eglwys a'i ffydd byth i fod yn was i rym gwleidyddol, ond yn llais sy'n herio grym; nad yw cariad at genedl yn rhywbeth absoliwt, ond yn alwad i wasanaethu gwlad yng ngoleuni ein teyngarwch i Grist.

Yn wyneb her "Christian Nationalism" gyfoes — ideoleg sy'n defnyddio iaith Crist ond yn gwadu ei ffordd — ein galwad ni yw bod yn bobl sydd wedi'u gwreiddio'n ddyfnach yn y gwirioneddau sy'n gwneud hi'n bosib i ni ddirnad rhwng y da a'r drwg. I ni fod yn bobl sy'n meiddio dal gafael ar obaith pan fo eraill yn ildio i ofn. Pobl sy'n adnewyddu'r meddwl yn hytrach na chydymffurfio â phatrymau'r byd hwn. Pobl sy'n cofio mai nid baner, na phlaid, na gwladwriaeth yw canol ein ffydd, ond y Crist croeshoeliedig — yr hwn sy'n dal i'n galw, yng Nghymru heddiw.

Wrth grynhoi ei weledigaeth ef o Genedlaetholdeb Gristnogol ar ddiwedd ei gyfrol *Desire of Nations* mae R. Tudur Jones yn dweud: '[our nationalism] asks nothing for itself that it does not wish for others. It is surely along some such path that the desire of the nations will be fulfilled.'